

Penwythnos y 60au

NOS WENER 29/01/27
BARA CAWS A'R
DIRGEIWCH LLOFRUDDIAETH

NOS SADWRN 30/01/27
STEVE EAVES
A RHAI POBL



60 MIYNEDD ERS
RHYDDHAU SGT. PEPPER



1967-2027



60 MIYNEDD ERS
DARLEDDU'R PRISONER



GWENER 29 IONAWR 2027

BARA CAWS A'R DIRGELWCH LLOFRUDDIAETH

Pleser gennym yw eich gwahodd i ymuno â ni ar daith yn ôl i'r 1960au am benwythnos llawn cyffro a dirgelwch.

1967 oedd y flwyddyn y cafodd cyfres y Prisoner ei darlledu am y tro cyntaf gan ddyfod â sylw byd eang i bentref Portmeirion. Y flwyddyn honno hefyd oedd blwyddyn rhyddhau albwm enwocaf y Beatles, Sgt. Pepper's Lonely Heart's Club Band. Byddai rheolwr y Beatles, Brian Epstein yn cadw bwthyn o'r enw y Gatws ym Mhortmeirion lle byddai'n treulio'r hafau gan wahodd aelodau o'r band ato. Roedd y Beatles, fel llawer o'r cyfnod, yn ddilynwyr brwd o gyfres y Prisoner ac yn adnabod Patrick McGoohan. Caniatawyd i McGoohan ddefnyddio'r gân 'All you need is love' ar gyfer pennod 'Fall Out', a hynny am ddim ond £45. Dyma un o'r unig droeon iddynt ganiatau i'w gwaith gael ei ddefnyddio gan neb arall.

Bydd naws y 1960au i'r nos Wener ac awgrymwn i'n gwesteion wisgo dillad sy'n adlewyrchu'r cyfnod, boed hynny'n ffurfiol gyda thei ddu, neu'n lliwgar, neu gyda naws rhaglen y Prisoner.

Byrddau rhannu i wyth neu ddeg o bobl fydd y drefn ar gyfer y cinio nos, er mwyn sicrhau awyrgylch cymdeithasol addas ar gyfer y dirgelwch llofruddiaeth.



RHAGLEN DYDD GWENER

15:00 - 17:00	Cyrraedd a chofrestru
18:00	Derbyniad diodydd
19:00	Cinio nos 5 cwrs, byrddau rhannu
	Dirgelwch llofruddiaeth 1960au Bara Caws

PORTMEIRION 1967-2027

SADWRN 30 IONFWR 2027

STEVE EAVES A RHAI POBL YN NEUADD ERCWLFF

Braint a anrhydedd yw cael croesawu Steve Eaves a'i fand i'r pentref. Dechreuodd ei gyrfa yn y 1960au ac yntau'n teithio fel cerddor gan berfformio mewn clybiau gwerin a lleoliadau cerddoriaeth eraill. Cyhoeddodd ddau gasgliad barddoniaeth yn y 1980au, ac ymuno gyda grwp y Beirdd Answyddogol a heriai'r sefydliad barddonol yng Nghymru ar y pryd. Mae'r 'Blues' wedi bod o gryn ysbrydolaeth iddo. Yn 2011 cyflwynodd Radio Cymru wobr arbennig iddo am ymroddiad oes.

Bydd ein gwsteion yn mwynhau cinio nos tri chwrs yn y Gwesty cyn ymlwybro hanner canllath i Neuadd Ercwlff i fwynhau'r cyngerdd.



Steve Eaves



Poster o 1986

RHAGLEN DYDD SADWRN

8:00 - 10:00	Brecwast
10:00 - 18:00	Amser rhydd i ymlacio neu fynd am dro
18:00 ymlaen	Cinio nos 3 chwrs
21:00 ymlaen	Steve Eaves a Rhai Pobl yn Neuadd Ercwlff

DYDD SUL 31 IONFWR

8:00 - 10:00	Brecwast cyn canu'n iach
--------------	--------------------------

PORTMEIRION 1967-2027

PECYN 29-30 IONAWR

MAE'R PECYN YN CYHLYS

Llety am ddwy noson

Brecwast bore dydd Sadwrn a bore dydd Sul

Derbyniad diodydd nos Wener

Cinio nos pum cwrs nos Wener

Dirgelwch llofruddiaeth gan Bara Caws nos Wener

Cinio nos tri chwrs nos Sadwrn

Cyngerdd Steve Eaves a Rhai Pobl yn Neuadd Ercwlff nos Sadwrn

PRIS Y PECYN

Yn cychwyn o £660 am y ddwy noson i ddau yn rhannu llofft ddwbl yn y pentref

Uwchraddiadau ar gael

Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael



PORTMEIRION 1967-2027

HOTEL PORTMEIRION

DINNER

Consommé Vivant
Salade Maitre
Oeuf en Omelette à la Crème

Roasted Salmon 11/6

Turbot au Vin Blanc
Poulet Chasseur
Brochette de Rognons Japonaise

Pommes Rissolées
Choux-Fleur Italienne, Epinards en Branche

Soufflé Pequila
Cheese Gateau

Stilton

Coffee

COLD TABLE

Roast Chicken

Roast Beef

Ham, Tongue

Salami, Mortadella

Liver Sausage, Garlic Sausage

Veal and Ham Pie, Pork Pie

Compote of Rhubarb, Compote of Pears

Banana Flan, Lemon Meringue Sponge

Treacle Tart, Jam Tart

Fruit Salad, Fruit Jellies

Stewed Apples

Yoghurt, Ices

A LA CARTE MENU ON REQUEST

28/6

11th April, 1969

PORTMEIRION 1967-2027